



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Y Borth
Ysgol Gynradd Craig yr Wylfa
Borth
Aberystwyth
SY24 5NJ**

Dyddiad yr arolygiad: 12 -13 Mehefin 2012

gan

Dorothy Morris

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012:
Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddyweddig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.
Dyddiad cyhoeddi: 11/07/12

Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Y Borth dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl ac mae'r plant sy'n ei fynychu yn dod o'r pentref a'r ardal leol. Mae'r ardal yn cynnwys ardaloedd mwy breintiedig a rhai cymdeithasol ddifreintiedig. Mae'r lleoliad yn cyfarfod mewn caban symudol sydd wedi'i leoli ar safle'r ysgol gynradd.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant rhwng dwy a phedair oed am bum sesiwn yr wythnos yn ystod y tymor ysgol. Mae ar agor rhwng 9:00 a 12:30. Yn ystod yr arolygiad roedd dau blentyn tair oed ar y gofrestr. Daw bron bob un o'r plant o gartrefi lle mai Saesneg yw'r brif iaith a siaredir. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae'r lleoliad yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae trefniadau cymorth priodol wedi'u gwneud.

Cyflogir dwy ymarferwraig brofiadol. Mae gan arweinydd y lleoliad gymwysterau perthnasol ym maes addysg a gofal plant ifanc ac mae'r ymarferydd arall yn dilyn cwrs hyfforddiant priodol.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Estyn yn Rhagfyr 2005 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Rhagfyr 2011.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Digonal
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Digonal

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol:

Mae'r cryfderau'n cynnwys:

- mae pob plentyn yn hapus yn y lleoliad;
- mae pob plentyn yn chwarae rhan weithredol yn eu dysgu;
- y berthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr; a'r
- cysylltiadau da gyda'r ysgol gynradd leol.

Fodd bynnag:

- nid yw cynllunio'r cwricwlwm yn rhoi digon o sylw i sicrhau cynnydd yn sgiliau plant;
- nid oes ffocws digonol mewn agweddau ar yr addysgu i ymestyn dysgu'r plant;
- nid yw'r tasgau bob amser yn cynnig her ddigonol i'r disgyblion; a
- nid yw'r ardaloedd dysgu, gan gynnwys yr ardal awyr agored, wedi eu datblygu'n llawn.

Rhagolygon gwella

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella digonol:

Mae'r cryfderau'n cynnwys:

- arweinyddiaeth gydwybodol yr ymarferydd arweiniol;
- gwaith tîm agos;
- mae arferion beunyddiol yn rhedeg yn ddiraffferth.

Fodd bynnag:

- nid yw agweddau ar reolaeth, gan gynnwys rôl y pwyllgor rheoli, wedi eu datblygu'n ddigonol;
- mae gweithredu'r cynllun gwella yn nyddiau cynnar ei ddatblygiad;
- mae prosesau i werthuso effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu yn anffurfiol eu natur; ac
- mae ystod a chyfanswm yr adnoddau yn gyfyngedig.

Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

- A1 ddatblygu cynllunio'r cwricwlwm er mwyn rhoi mwy o sylw i'r sgiliau sy'n cael eu datblygu;
- A2 cryfhau'r addysgu er mwyn ymestyn dysgu plant, yn enwedig felly'r plant hŷn;
- A3 datblygu prosesau rheoli ac arfarnu, gan gynnwys rôl y pwyllgor rheoli; a
- A4 datblygu'r amgylchedd dysgu ymhellach a sicrhau ystod ddigonol o adnoddau.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro'r cynnydd a wneir.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Amherthnasol

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Digonol

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r lleoliad yn cynnig profiadau dysgu addas i blant ar draws y meysydd dysgu. Mae'r cynllunio cyffredinol yn seiliedig ar fframwaith yr awdurdod lleol, sy'n adlewyrchu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r gweithgareddau'n seiliedig ar gyfres o themâu sy'n gweddu i ystod oed y plant. Yn gyffredinol, nid yw'r cynllunio'n rhoi digon o sylw i sicrhau datblygiad cynyddol yn sgiliau dysgu'r plant. Nid yw'r cynllunio ar gyfer defnyddio'r ardal awyr agored wedi'i gwblhau'n llawn.

Rhoddir sylw priodol i hyrwyddo sgiliau cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu trwy weithgareddau. Caiff gweithgareddau eu paratoi'n briodol ond nid ydynt bob amser yn cynnig digon o her i blant, yn enwedig y plant hŷn, i ymestyn eu dysgu yn gyson.

Gwneir defnydd da o ymweliadau ac ymwelwyr i gefnogi dysgu plant. Fel rhan o thema, 'Pobl sy'n ein helpu', gwnaed defnydd da o gyfraniad deintydd, diffoddwr tân a heddwes lleol i ehangu ymwybyddiaeth plant o'u rolau. Gwnaed defnydd llwyddiannus o deithiau, megis y daith trŵn i dref leol, i ddatblygu gwybodaeth plant am yr ardal leol.

Caiff plant eu hannog yn gyson i ddefnyddio eu sgiliau cyfathrebu Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Rhoddir cyfleoedd beunyddiol i blant wrando ar storïau, trafod pynciau gwahanol, canu caneuon a rhigymau, a defnyddio sgiliau marcio. Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymru trwy weithgareddau addas sy'n cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Ddewi a Dydd Santes Dwynwen.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddysgu am gynaliadwyedd a phwysigrwydd gofalu am bopeth byw. Maent yn cynnwys tyfu planhigion a gofalu amdanynt, trafod anifeiliaid y deuir â nhw i'r lleoliad, a chymryd rhan mewn gweithgareddau ailgylchu. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd hefyd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd ehangach, gan gynnwys pobl eraill, eu diwylliannau a'u dathliadau. Maent yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau celf. Maent hefyd yn dathlu Dydd Sant Padrig a Dydd Sant Siôr trwy weithgareddau gwahanol.

Addysgu: Digonol

Mae gan ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Gwnânt ddefnydd addas o ddulliau addysgu gwahanol ac o adnoddau i gynnal a chefnogi'r dysgu. Lle mae'r addysgu'n effeithiol, mae defnydd da o ddulliau adrodd stori ac o gwestiynu i annog plant i gyfrannu. Nid yw'r addysgu bob amser yn rhoi ffocws digonol ar y sgiliau sydd i'w datblygu. Nid yw'r cyfleoedd i gymhwyso'r sgiliau hyn ymhellach yn ystod gweithgareddau, megis gwneud salad ffrwythau, yn cael eu defnyddio'n llawn.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Cofnodant arsylwadau o ddydd i ddydd a chaiff y wybodaeth a gesglir ei chrynhai ar gofnodion dysgu unigol. Mae'r defnydd o'r wybodaeth hon wrth gefnogi dysgu plant unigol yn datblygu. Mae

adroddiadau i rieni yn cynnwys gwybodaeth eglur ar gynnydd y plant ar draws yr holl feysydd dysgu. Caiff dogfennau trosglwyddo eu cwblhau'n briodol ac fe'u danfonir ymlaen i'r ysgol gynradd.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar ac mae perthnasoedd rhwng oedolion a phlant yn dda iawn. Gweithredir polisïau a gweithdrefnau priodol i gynnal a chefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau cynefino, ynghyd â'r cysylltiad beunyddiol gyda rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn gyfforddus yng nghwmni oedolion.

Caiff anghenion dysgu ychwanegol plant eu hadnabod yn gynnar a darperir cymorth priodol. Mae'r staff yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, yn ôl yr angen, i fynd i'r afael ag anghenion penodol.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r ymarferwyr wedi cael hyfforddiant priodol a deallant eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae profiadau dysgu yn meithrin datblygiad personol plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gwerthoedd fel gofalu, caredigrwydd a dealltwriaeth o beth sy'n iawn a beth nad sy'n iawn yn cael eu meithrin yn effeithiol trwy'r cwricwlwm a thrwy weithgareddau beunyddiol. Mae'r ymarferwyr yn fodolau rôl effeithiol. Maent yn trin pob plentyn gyda pharch.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi mynediad cyfartal i bob plentyn i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a ddarperir. Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth a gwerth i gefndiroedd amrywiol plant ac ymatebant yn briodol. Llwyddant i greu amgylchedd cynnes a chyfeillgar i bob plentyn.

Mae gan y lleoliad nifer priodol o ymarferwyr. Mae ansawdd yr adeilad yn ddigonol, ond gwnaed gwelliannau i'r cyfleusterau, gan gynnwys llecyn cegin newydd ac ardal chwarae awyr agored. Mae samplau o baentiadau a gwaith celf plant yn cael eu harddangos yn briodol o gwmpas yr ystafell. Nid yw arddangosiadau eraill, megis deunyddiau iaith a rhif, bob tro'n cael eu harddangos ar lefel briodol er mwyn galluogi plant i'w defnyddio'n hwylus. Caiff yr ystafell ei rhannu'n ardaloedd dysgu, ond mae ystod yr adnoddau dysgu yn yr ardaloedd hynny yn gyfyngedig. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd priodol o'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys adnoddau y maen nhw wedi'u paratoi eu hunain, i gynnal a chefnogi'r addysgu. Mae'r ardal awyr agored yn cael ei datblygu'n briodol er mwyn darparu ystod eang o weithgareddau.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Digonol

Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin ac maent wedi ymrwymo'n llawn i ddatblygiad a lles plant. Gweithiant yn agos fel tîm. Llwydda'r arweinydd i greu ethos cadarnhaol iawn ar gyfer staff, plant a rhieni. Mae arferion beunyddiol yn gweithio'n ddidrafferth a chaiff polisiau addas eu gweithredu. Mae'r defnydd o brosesau cynllunio a rheoli yng nghyd-destun y ddarpariaeth gyfan yn parhau i ddatblygu.

Mae'r pwyllgor rheoli yn datblygu ei ddealltwriaeth o'i gyfrifoldebau. Ni chafodd ei rôl yn rheoli ac arfarnu'r lleoliad ei sefydlu'n llawn. Cymer y cadeirydd ddi-ddordeb byw yn y lleoliad ac mae'r aelodau'n gweithio'n galed i godi arian ychwanegol. Mae gan y lleoliad system briodol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr ac i adnabod eu datblygiad proffesiynol pellach, ond nid oes digon o ffocws i'r ffordd y caiff ei gweithredu.

Rhodda'r ymarferwyr sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hyrwyddo sgiliau iaith Gymraeg y plant a datblygu cysylltiadau da gyda'r ysgol gynradd leol.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r ymarferwyr yn barod i wrando ar syniadau newydd ac yn fodlon rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio. Cynhaliant drafodaethau rheolaidd, ond mae'r prosesau i arfarnu agweddau ar ansawdd yr addysgu a dysgu yn anffurfiol eu natur. Bu cwblhau'r ddogfen hunan arfarnu yn broses ddefnyddiol, ac mae'n adnabod nifer o gryfderau'r lleoliad. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys targedau perthnasol, ond mae ei weithredu yn nyddiau cynnar ei ddatblygiad.

Mae'r lleoliad yn gwahodd barn rhieni trwy gyfrwng holiaduron blynyddol a rhoddir sylw dyladwy i unrhyw sylwadau a wneir. Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu trafod ymhellach gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a chyda swyddog y Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae meysydd i'w datblygu yn cael eu cytuno a chyflwynir strategaethau perthnasol. Ni chafodd rôl y pwyllgor rheoli o ran prosesau blaen gynllunio ac arfarnu ei datblygu'n llawn hyd yn hyn. Mae'r lleoliad wedi mynd i'r afael â llawer o argymhellion yr adroddiad blaenorol. Mae angen i agweddau, fel y defnydd o wybodaeth asesu, gael eu datblygu ymhellach.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas ar agweddau o addysg a gofal plant ifanc, gan gynnwys cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Cawsant rai cyfleoedd i drafod a rhannu syniadau gyda lleoliadau ac ymarferwyr eraill yn ystod dyddiau hyfforddiant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Caiff nifer o bartneriaethau effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles plant. Mae gan y lleoliad gysylltiadau da gyda'r ysgol gyfagos. Mae perthynas agos a rhannu cyfleoedd yn helpu'r plant i drosglwyddo'n ddidrafferth. Mae plant yn elwa o'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau, fel y gwasanaeth diolchgarwch, gyda disgyblion yr ysgol. Mae'r bartneriaeth gyda rhieni hefyd yn dda, a chafodd hynny ei gadarnhau yn y sgysiau a gafwyd gyda nhw yn ystod yr arolygiad. Mae'r ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gyfarfod â rhieni ar ddechrau a diwedd pob sesiwn, a rhoddir gwybodaeth berthnasol iddynt am weithgareddau'r lleoliad trwy'r hysbysfwrdd, poster a chylchlythyron.

Mae'r berthynas ffrwythlon gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a chyda swyddog datblygu'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn cyfrannu at welliannau yng ngwaith y lleoliad. Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned yn cynnal a chefnogi dysgu'r plant yn effeithiol.

Rheoli adnoddau: Digonol

Caiff adnoddau eu rheoli'n briodol. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n addas a chaiff ymarferwyr gyfleoedd i gael rhagor o hyfforddiant. Mae'r adeilad yn hen, a digonol yw safon yr addurno. Mae'r ardal ddysgu awyr agored newydd yn adnodd gwerthfawr a thrafodwyd gwelliannau eraill i'r trefniadau mynediad yn ystod yr arolygiad. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau lleol, megis yr orsaf bad achub, yr orsaf dân a'r trên lleol, er mwyn ehangu profiadau'r plant.

Mae gan arweinydd y lleoliad a'r person cofrestredig ddealltwriaeth eglur o'r gyllideb, a chaiff penderfyniadau gwario eu blaenoriaethu yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd priodol o grantiau a mentrau codi arian er mwyn darparu adnoddau ychwanegol. Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth digonol am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhandaliad

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Maent yn barod i sgwrsio'n syml am eu hoff weithgareddau a dywedant eu bod yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau.

Atodiad 2

Yr arolygydd cyfnodol

Dorothy Morris

Arolygydd Cyfnodol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Gymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.
Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.